Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion y Panel Craffu Perfformiad – Addysg

**Cyfarfod aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 23 Tachwedd 2023 am 4.00pm**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| A Davis | A M Day | B Hopkins |
| S Joy | J D McGettrick | R V Smith |

| **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** | **Aelod(au) Cyfetholedig** |
|---|---|---|
| Elizabeth Lee | | |

**Hefyd yn bresennol**
Robert Smith

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Rhodri Jones | Pennaeth y Gwasanaeth Cyflawniad a Phartneriaeth |
| Kelly Small | Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau |
| David Thomas | Prif Swyddog Gwella Ysgolion |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**
Y Cynghorwyr: F M Gordon, F D O'Brien and A J O'Connor
Aelod(au) Cyfetholedig: Beth Allender

---

## 96 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd y Cynghorydd Lyndon Jones a Mike Day gysylltiad personol ag eitem 9 ar yr agenda.

## 97 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

## 98 Cofnodion

Cytunodd y Panel ar gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Medi 2023 a 19 Hydref 2023.

## 99 Llythyr(au)

Nodwyd y llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn cyfarfod y Panel ar 14 Medi 2023.

Nodwyd y llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn cyfarfod y Panel ar 19 Hydref 2023. Diweddarodd y Cyfarwyddwr y Panel ar fater a godwyd gan y Pennaeth, a oedd wedi teimlo nad oedd peth o'r hyfforddiant grŵp a ddarparwyd gan Partneriaeth mor fuddiol â'r gefnogaeth un-i-un. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg wrth y Panel ei fod wedi gofyn i Bennaeth Ysgol Gynradd Gorseinon nodi digwyddiadau hyfforddi nad oeddent cystal â'r disgwyl. Mae wedi cadarnhau bod yr esiampl/au yn rhag-ddyddio mis Ebrill 2022 pan ddechreuodd Partneriaeth yn gyfreithlon.

100 **Cwestiynau gan y cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

101 **Lleihau anfantais mewn ysgolion, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, cyflwyno prydau ysgol am ddim, cost y diwrnod ysgol a gwisg ysgol**

Diolchodd y Panel i'r Cynghorydd Robert Smith (Aelod y Cabinet dros Ddysgu a Sgiliau), Helen Morgan Rees (Cyfarwyddwr Addysg), Kelly Small (Pennaeth Cynllunio ac Adnoddau) am ddod i gyfarfod y Panel a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig a oedd yn manylu ar leihau anfantais mewn ysgolion. Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

- Gwariant y Grant Datblygu Disgyblion
- Cyflwyno prydau ysgol am ddim
- Cost y diwrnod ysgol
- Cost gwisg ysgol a grant gwisg ysgol.

Codwyd y materion/cwestiynau canlynol gan y Panel. Bydd crynodeb o farn y Panel am y cynnydd a wnaed a'r ymatebion i gwestiynau'n ffurfio rhan o'r llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn yn cyfarfod.

- Sut y penderfynir ar daliadau a grantiau datblygu disgyblion yn y dyfodol pan nad yw'r mesur procsi prydau ysgol am ddim (PYDd) bellach yn gywir gan fod llai o gymhelliant bellach i rieni gofrestru yn sgil cyflwyno PYDd.
- Gostyngiad posib mewn amser ar deithiau ysgol ar fws oherwydd y rheol 20mya.
- A yw enghreifftiau o arfer da wrth leihau anfantais yn cael eu rhannu ar draws yr ysgol.

102 **Gwasanaeth Gwella Ysgolion - Diweddariad Blynyddol**

Diolchodd y Panel i'r Cynghorydd Robert Smith (Aelod y Cabinet dros Ddysgu a Sgiliau), Helen Morgan Rees (Cyfarwyddwr Addysg), David Thomas (Prif Swyddog Gwella Ysgolion) am ddod i gyfarfod y Panel a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Gwella Ysgolion. Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

- Cefndir y gwasanaeth
- Gwybodaeth am y sefyllfa bresennol
- Casgliadau

- Meysydd ffocws allweddol yr Ymgynghorwyr Gwella Ysgolion ar gyfer 2023/2024

Codwyd y materion/cwestiynau canlynol gan y Panel. Bydd crynodeb o farn y Panel mewn perthynas â'r diweddariad ar y gwasanaeth gwella ysgolion yn ffurfio rhan o'r llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn y cyfarfod. Mae rhai o'r materion a godwyd gan y Panel yn cynnwys:

- Sut mae rolau beunyddiol y Tîm Gwella Ysgolion a Partneriaeth yn gweithio, beth yw'r gwahanol rolau, oes unrhyw fylchau neu orgyffwrdd.

103 **Coginio mewn Ysgolion**

Diolchodd y Panel i'r Cynghorydd Robert Smith (Aelod y Cabinet dros Ddysgu a Sgiliau), Helen Morgan Rees (Cyfarwyddwr Addysg), Rhodri Jones (Pennaeth Cyflawniad a Gwasanaeth Partneriaeth) am ddod i gyfarfod y Panel a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig a oedd yn manylu ar leihau anfantais mewn ysgolion. Roedd y drafodaeth yn cynnwys:

- Cyflwyniad i goginio a'r Cwricwlwm i Gymru
- Coginio mewn ysgolion cynradd
- Coginio mewn ysgolion uwchradd.

Bydd crynodeb o farn y Panel am y sesiwn friffio ar goginio mewn ysgolion yn ffurfio rhan o'r llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn yn cyfarfod. Codwyd y materion/cwestiynau canlynol gan y Panel.

- Beth yw'r amcanion o ran coginio, a yw'n rhan o'r strategaeth ehangach o gwmpas, er enghraifft, tlodi.
- A yw ysgolion etc. yn adeiladu hyn i mewn i'r cwricwlwm a pha mor aml y mae plant yn cael coginio mewn gwirionedd?
- A yw lefel sgiliau Cymru gyfan yn rhan o'r agenda alwedigaethol ac a oes cymwysterau cysylltiedig ar draws Cymru.
- Nodwyd bod Ysgol Gynradd Penclawdd yn enghraifft dda. A ystyriwyd cyflwyno'r hyn y mae'r ysgol hon yn ei wneud yn ehangach.

104 **Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/2024**

Nodwyd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023/2024. Bydd sesiwn friffio sy'n ymwneud ag addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cael ei hychwanegu at y rhaglen waith craffu eleni.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.10 pm

**Cadeirydd**